

20:07 Nos Lun 14 o Ebrill 2014



Lleud oren yn codi dros gopa'r Wyddfa am saith munud wedi wyth noson yr 14 Ebrill (Ifor Williams)

Last week, the Earth, Mars and the Sun aligned 'in opposition', giving us our brightest, clearest view of the red planet for just over two years. And on the night of April 14-15, a rarer astrological occurrence will commence: a total lunar eclipse that should cause the moon to turn blood-red. . This is expected to be the first of four consecutive 'blood moons' occurring at roughly six month intervals – a phenomenon known as a tetrad. Traditionally, some religions – as well as some less scientific modern commentators – have regarded them as harbingers of strife and tragedy. So will the next tetrad bring doom and destruction or simply some beautiful sights?

<http://home.bt.com/news/worldnews/four-blood-moons-to-light-up-the-night-sky-11363891926522#.U0xZsb6AVCY>.email

Lloerau coch mewn hanes

9 Chwefror 1906 Solihull: *Snow-storm in the night, this morning we looked out on a white landscape, this is the first deep snow we have had this winter... There was a partial eclipse of the moon visible this morning a 5.57am At 8 o'clock in the evening there was a beautiful rainbow-coloured halo round the moon, unusually bright and distinct.*

(Dyddiadur Edith Holden, Solihull)

28 Awst 1947 Padog:Codi haidd gefnen wen. Torri asgell yn cae lloeau. Poeth iawn, teg a hyfryd, tanbaid. Lleud coch. (Dyddiadur DO Jones, Padog)

17 Ebrill 2003 Llansadwrn, Môn: The full moon was caught setting in the W near sunrise at 0515 GMT. It looked coloured because it was reflecting the rising sun just below the dust plume. When above the dust [o'r Sahara] the sun turned white but the moon had set.

Don Perkins



Roedd gwawr oren ar y Lleud am 9.15 p.m. Ebrill 15
(Alun Williams)

Dulyn, Llyn Hud a Chyfaredd

Fel daw'r gwanwyn mae'r demtasiwn i grwydro'r mynyddoedd a'r llynnoedd uwchlaw Dyffryn Conwy yn cynyddu. Un o'r atyniadau i'r cerddwr yw taith i Lyn Dulyn, sy'n lledu rhwng y Foel Fras a'r Foel Grach ar lefel o 1,747 uwchlaw lefel y môr. Mae dyfnder y llyn, yn ei ganol lle mae ar ei fan dyfnaf, yn 189 o droedfeddi. Mae'r llethrau serth o ddeutu'r llyn yn cwmpo'n syth i lawr i ddyfnder o hanner cant a phump o droedfeddi. Rhed nant fechan, sydd yn is i lawr yn datblygu i fod yn afon Dulyn, o ochr orllewinol y llyn gan wau ei ffordd drwy bentrefi Llanbedr-y-cennin a Thalybont. Effaith y rhewlif yn Oes yr Iâ fu'n gyfrifol am grafu'r pant i ffurfio'r llyn.

Y mae hanes hir ynghyd â sôn am nifer o ddirgelion yn gysylltiedig â Llyn Dulyn, a does ryfedd o ystyried yr awryglch drymlyd a'r distawrwydd sy'n amgylchynu'r dŵr dwfn tywyll. Mae hanes yr 'Allor Goch' i'w gael yn y Mabinogion yn stori "Arglwyddes y Llyn". Yn y stori mae'r arwr yn dringo'r mynydd nes cyrraedd y llyn ac yn darganfod y ffynnon lle roedd y bowlen arian wedi ei chlymu â chadwyn wrth ochr llechen farmor yr Allor Goch. Llanwodd yr arwr y bowlen â dŵr y ffynnon a thywallt peth ohono ar y llechen. Yn sydyn cafwyd storm o law taranau.

Yn gysylltiedig â'r hanesyn yma mae sôn am daflu dŵr ar yr Allor Goch i ddenu glaw ar ddyddiau poeth a sych yn yr haf. Yn un o hen gopiâu "Y Greal", cyfnodolyn a gyhoeddodd yn Llundain yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae adroddiad hir am y digwyddiad yma. Cyfeirir at ymweliad dau gyfaill, J Pryce o Blas Iolyn a Sion Dafydd o Riwas, ger Llansilin, â'r llyn. Fe gyfeirion nhw at y ffaith fod y llyn yn ddu ei ddyfroedd a'r pysgod yn afluniaidd a hagr – eu pennau'n fawr a'u cyrff yn fychan. Dyw'r elyrch nac adar eraill ddim yn glanio ar y llyn fel ar llynnoedd eraill Eryri. Y mae sarn yn arwain o'r llyn at yr Allor Goch ac, fel y cyfeiriwyd, os teflir dŵr ar hon mae'n sicr o lawio cyn nos.

Mangre wedi ei hamgylchynu gan ddirgelion – cyrchfan ysbrydion yw glannau Llyn Dulyn. Flynnyddoedd yn ôl syrthiodd dringwr oddi ar y creigiau serth i ddyfnder y llyn ac ar noson olau leuad mae ei sgrechfeydd i'w clywed yn atsain dros ddŵr y llyn. Y gred yw fod Llyn Dulyn, neu o leiaf yr holl ardal, yn effeithio ar offer awyrennau ac yn drysu'r criw. Fel y dywedodd cyfaill i mi sydd â phrofiad o hedfan, "Dyma Bermuda Triangle Cymru". Y gwir yw fod nifer o awyrennau wedi eu colli wrth hedfan dros y mynyddoedd yn agos i'r llyn. Mae'n ymddangos fod rhyw rym magnetig yn ymyrryd ag offer awyrennau yn yr ardal hon.



Mae'r llun yn dangos 'propeller' ar lan y llyn ac mae sgerbwd hen Avro Anson o gyfnod yr ail ryfel byd yn dal i fod yn nŵr y llyn. Felly, chwi 'Gerddwyr y Pentan' ac eraill, gofalwch rhag cael eich swyno gan y llyn du a'i ddirgelion.

Ymddangosodd yr ysgrif hon gan Stan Wicklen gyntaf ym mhapur bro Y Pentan. Fe'i cyfieithwyd gan Gareth Pritchard

Glaw Chwefror mewn ffigyrau

Chwefror 2014: Does dim eisiau atgoffa unrhyw un fod Chwefror 2014 wedi bod yn un eithriadol o wlyb. Yma yn Pelcomb, Hwlfordd cafwyd 197.5m.m.(7.8modfedd). Mae'n tipyn uwch na chyfartaledd y ganrif sef-92.1mm. Gweler y siart sydd yn dangos cyfanswm glaw pob mis Chwefror ers 2000, gan John Lloyd Jones. Ac yn Llanfaglan o 1992 i 2014, gyda glawiad 2014 yn 192.3 (7.67modfedd), Ifor Williams

Er fod y patrwm yn debyg iawn ar y ddau safle arfordirol yma, roedd unrhyw wahaniaethu yn dangos bod Pelcomp (Sir Benfro) yn wlypach na Llanfaglan (Gwynedd).



Cof Cymraes am Drychineb Lynmouth 15 Awst 1952

Mae gen i cof plentyn 4 oed gen i am wersylla ger Lynmouth efo grwp o ddarlithwyr (gan gynnwys fy nhad) a myfyrwyr. Roedd y babell ble y cysgais gyda fy 2 brawd wrth ymyl yr afon. Cawsom ein deffro gan law. Bu fy mrawd mawr 5 oed a minnau yn dadlau os dylen ni fynd i dweud fod dwr yn dod i fewni i'r babell (wedi cael gorchymun gan mam i beidio â gadael ein gwlaeu) Daeth 2 fyfyrwr a rhoi ni'n 3 ar un gwely gan gario ni i fyny'r rhiw tua'r prif babell. Hanner ffordd yno ddaru nhw gweiddi am help a gwelsom ni ein pabell yn diflannu i lawr yr afon. Gwelais fy nhad yn rhedeg tuag atom. Bu ofn arnaf y buasai yn ddiog am cholli'r pabell ond cododd fi yn ei freichiau â'm cario tua'r prif pabell. Roedd y prif pabell yn llawn o bobl gyda fy nhad yn siarad iddynt. Dywedodd ei bod ef yn mynd llawr i'r pentref i dweud i bobl am y glaw. Cofiaf y geiriau "I am only taking volunteers with me" ond methais a deall pam oedd ei llais ef mor difrifol.

Y peth nesaf rwy'n cofio oedd deffro a gweld fod y babell yn wag heblaw am mam a'm mrodyr. Roedd hi yn brysur wrth y bwrdd a gofynnais beth oedd hi'n gwneud. Atebodd ei bod hi'n gwneud brechdannau a'r gyfer pawb pan daethon nhw yn ôl ond dyla i fynd yn ôl i cysgu gan ei bod hi ynghanol y nos. Pendronais pam y buasai pobl yn eisiau bywd yng nghanol y nos cyn cysgu eto Y bore canlynol roedd y dynion yn palu ffosydd o gwmpas y pebyll i gyfeirio y dwr glaw oddiwrthynt. Cafodd fy mrodyr a finnau llawer o hwyl yn neidio drosdynt gyda neb yn gwylltio gyda ni am fod dan draed ac hyd yn oed pan syrthiodd fy mrawd bach (bron 3 oed) i un o'r ffosydd a chael ei tynnu allan yn wlyb ac yn mwdlyd nid oedd neb yn grac gyda ni.

Nes ymlaen cyraeddodd milwyr. Cafodd fy mrodyr a finnau rhasys "piggy-back" ar gefn milwyr ar draws y caeau ble oedd dwr yn gorwedd gan gwneud y tir yn rhy fwdlyd i Landrover dod atom. Cawsom llawer o hwyl a'r peth mwyaf doniol oedd gweld un o'r milwyr yn cario Mam ar draws y cae. Wedyn deallasom fod mam a minnau yn mynd adref ar y trê'n heb fy nhad oedd yn aros i cynorthwyo yn y pentref, Roeddem yn siomedig iawn gan fod y gwyliau wedi bod yn gymaint o hwyl. Ni sylweddolais am flynyddoedd fod trychineb wedi digwydd. Rwth Tomos

Lladdwyd 32 o bobl pan dorrodd yr afon Lyn (Exmoor, Dyfnaint) ei glannau y diwrnod hwn. Dyma brofiadau dyddiadurwyr eraill o Gymry o'r diwrnod hwn a thrennydd.

15 Awst (Bwlchtocyn, Llŷn): Reit braf a sych. Dyddiadur John Owen Jones, Ffermwr, Crowrach, Bwlchtocyn, Llŷn.

Gyda diolch i deulu R.G.Williams ("Gwlaw a hegar" cofnododd JOJ ar gyfer y 16eg.)

15 Awst (Padog): Gwerthu 25 o wyn gwrryw [sic] yn sel Pentrefoelas am 57/= yr un. Tori gwair yn y caeau gwaelod. Mam a Beti yn bydylu dwy res yn Gefnen Wen. Gwres yn y bore a glaw gyda'r nos. Dyddiadur DO Jones, Padog (o deipysgrif electronig, gyda chaniatad y teulu) . ("Yn y gwair" oedd DOJ ar y 16eg. – mae'n rhaid ei bod hi'n braf)

Mae'n rhaid bod y glaw dros Lynmouth yn cyrraedd gogledd Cymru y diwrnod dilynol http://lennatur.com/files/u1/Lynmouth_Flood_15_August_1952.pdf

15 Awst (Harlech: Sunny up to 1.30pm, scattered clouds by midday from NE. heavy thundery shower 4pm..rain 10.30pm (Floods in Lynmouth evening, 9 inches fell on Exmoor in 24 hours) Dyddiadur ALIJ, Cerrig Gweunydd, Harlech

Gwynt cwyn yr eira?

Daeth dyddiadur neu "Weather Book" Constantia Orlebar, Northamptoni'r fei yn ddiweddar sy'n dyddio yn ol ddau can mlynedd. Soniodd Constantia yn gyson am yr "hollow wind".

Chwefror 20 1795. *Early Dark and thick clouds - frequent flights of snow - enough to cover the ground - hollow wind, very cold - some snow in the night*

Ewch [yma](#) am fwy o gofnodion "hollow wind" o *Weather Book* Constantia. Ym mis Ionawr neu Chwefror oedd pob un.

Nid oedd y meteorolegydd y diweddar Gordon Manley yn gyfarwydd â'r ymadrodd, a dyma ffrwyth ei ymchwil iddi yn un o gylchgronau'r RMS:

Expressions such as ' hollow wind at night,' ' russling wind ' (sic) and ' whistling hollow wind ' abound [yn y "Weather Book"] and it would be of great interest to know whether the expression ' a hollow wind ' is still used in the East Midlands and just what it implies. it ... It might be thought to refer to the noise characteristically associated with the wide chimneys of the past; but what kind of wind makes such a ' hollow, or moaning ' noise ? Does it mean upwards of force 3 The New Oxford Dictionary gives little help; the English Dialect Dictionary gives instances of the former use of 'hollow' in regard to wind in Lincolnshire, Worcestershire and Gloucestershire. I am indebted to Mr. E. L. Hawke for reminding me of Erasmus Darwin's opening line on the signs of rain, ' the hollow winds begin to blow ' (see Inwards's Weather Lore, 4th Edition, 1950, p. 227).

Dyma Twm Elias yn trafod y gwynt hwn yng Nghymru: "Be am y dywediad o Sir Ddinbych, sy'n eitha agos i 'hollow wind' d'ecini : 'cwyn eira' = sŵn y gwynt yn suo'n ysgafn cyn eira. [Am y Tywydd, tud. 224]. Hefyd: Sŵn gwynt yn chwythu drwy'r shetin yn y gaeaf = arwydd eira (Gog. Maldwyn) [tud. 240], ac un neu ddau arwydd arall bod glaw ar ei ffordd [tud. 240 - 241], e.e. 'chwiban i'w chlywed yn rhai o agorydd tanddaearol chwarelai Blaenau – glaw / storm ar ei ffordd' [tud. 241]". Oes gan ein darllenwyr unrhywbeth i'w ychwanegu tybed?

Pwy faga' blant



Mam yn bwydo'i chyw? Llun wedi ei dynnu ar 31ain Awst 2013

Rwth Tomos

Lladdfa'r wylun.... MWY

Tua'r flwyddyn 1979 ar y mawndir uwchben Llyn Efyrynwy gwelais innau hefyd ([wele gofnod Pierino Algieri](#)) aderyn ysglyfaethus yn gwledda ar wyfnod yr wylun, ond nid bwncath oedd yr heliwr ond hebog yr ehedydd. Mae'r hebog bychan yma yn arbennig o ddyheig wrth iddo ddal pryfed mawr o bob math. Yn yr achos hwn roedd gwyfyn yr ymerawdr hefyd ymhlith gweddillion ei helpa, sef gwyfyn mawr arall sydd yn gwibio dros y grug yn chwilio am gymar ar ddyddiau braf o Ebrill neu Fai. Ond yr hyn sydd yn gwneud i mi feddwl bod y math hwn o hela gan adar ysglyfaethus yn fwy cyffredin nag yr ydym yn meddwl yw'r ffaith i mi weld gwalch bach un tro yn stelcian trwy'r grug fel grugiar. Tybiaf mai'r gwyfnod hyn oedd nod yr ymddygiad hwnnw hefyd. **Iolo Williams**

Manteision baw ddwywaith

Gwelais y twll Cwningen yma yn y cae yn Mynytho pnawn ma. [9 Mawrth 14]

Llun a stori: **Netta Pritchard**

Dyma ymateb y cyn-milfeddyg Ieuan Roberts: "Sylwych ar y ddau fath o dom neu dail ger y twll. Mae'r wningen yn pasio'r dom cyntaf sydd wedi haner ei drin yn arbennig yn y colyddyn mawr gan ryddhau'r siwgr i glwcos ond nid yw yn gallu amsugno'r glwcos yn y colyddyn mawr [*refection Gol.*]. Felly i gael y fantais gyflawn o'r bwyd mae yn ail-fwyta'r dom hyn ac felly yn gallu amsugno'r siwgr yn y colyddyn bach a chael y gwerth i gyd o'r bwyd".



Penigan y forwyn – yn Neganwy am ganrif o leiaf



Dianthus deltooides, wedi tynnu ar 26 Awst 2011, ar Y Vardre, Deganwy. Llun a chapsiwn: **Wendy McCarthy**

Bu'r planhigyn hwn yn tyfu yn ardal Deganwy ers o leiaf canrif. Dyma gofnod o ddyddiadur Harry Thomas,

Llandudno: 1 Hydref 1916: *Walk with Mr Waterfall to Deganwy in the afternoon to look for wild pink but failed to find it.*

Enwau eraill ar y penigan yw *Dianthus deltooides* (gwyddonol), Penigan Gwryfaidd, Ceian, Ceilys, Euad a *maiden pink* (Saesneg)

Planhigion Blodeuol; Conwydd a Rhedyn. Cymdeithas Edward Llwyd 2003

Y niwl, yr haul a'r deffro



Niwl trwchus yn ardal Trefnant. Mawrth 13.

Alun Williams



Rhyfeddu fy mod wedi gweld gwiber heddiw a hithau yn niwlog ac yn oer, 6 gradd C, Mynydd Hiraethog, Mawrth 14.

Llun a stori: **Alun Williams**

Ond roedd y pwysedd yn uchel ar haul yn gynnes ar brydiau. Cymharer stori'r [gaeafgysgwr o Stiniog](#) yn y Bwletin diwethaf a ddeffrodd yng nghanol yr un niwl y diwrnod cynt!

Simneau piwiaid

Dod ar draws y mwd yma oedd wedi sychu ym mynyddoedd y Cambria. Roedd y ffurfiau tua tair modfedd o uchder gyda thwll bach yng nghanol y tyrrau. O dorri i mewn roedd ffibr bach yn y



canol, felly tybiaf mai mwd wedi crynhoi o amgylch bonion brwyn oedd wedi pydru oedd wedi ei greu

Llun a sylw: **Ieuan Roberts**

Ynteu tybed ai ffurfiau gan larfau piwiaid *chironomid* ydyn nhw a'r "ffeibr" yn olion sych y larfa coch gwreiddiol? DB

Carreg Hubert Stone, gwenoliaid y bondo a hwrlibwri byddarol y mulfrain

Yr “Hubert Stone” ar glogwyn Rhiwledyn, Llandudno (caniatad i’w ddefnyddio gan John Lawson-Reay):
“Sacred to the memory of Hubert Stone, of Derby who fell and died here on or about August 30, 1897, aged 14. God grant that we meet again in a Happier Valley.”

A dyma ei leoliad:

Meddai Gareth Pritchard: “Fe welwch fy mod wedi gosod croes wen ar y llun i ddyndi’r fan lle bu Hubert farw a’r nythfa o adar uwch ei ben.

Dyma gofnod o ddyddiadur Harry Thomas o Landudno yn cyfeirio at y “Cross”: [18 Mehefin 1916] “Misty rain which had fallen during the night soon clears. Walk with Doll & George to the Cross at the foot of Little Orme cliff. Count 20 House Martins [nests?] against the cliff”. Dyma ddywed Tom Parry, yr hanesydd lleol, am [hanes Hubert Stone](#)

Oes yna wlenoliaid y bondo yn nythu ar y clogwyn hwn o hyd. Ai gwir yw mai clogwyn Malham Tarn yn swydd Derby (cartref Hubert Stone gyda llaw) yw’r unig fan ym Mhrydain lle mae’r aderyn hwn yn nythu ar glogwyn naturiol?

Llyffantod hwyr?



Roeddwn yn ymweld â Gerddi Rhododendron Lea, Swydd Derby pnawn Sul diweddfaf [16 Mawrth.... Hwyr? Gol.] a welson ni lond pwll o frogaod a griff. Dyma [glip fideo](#)

Llun a stori: Jonathan Simcock

Dyma gofnododd Olwen Evans, Rhostryfan ar y 18 Chwefror 2014: “Pentwr o griff llyffant yn y pwll heddiw - fy atgoffa o bwll sago neu dapioca ers talwm a fyddai’n codi pwys arna i”. Mi ges innau (Gol.) rífft ffres ar y 10 Chwefror, wythnos ynghynt.

Gaeaf unigryw?

Tywydd y gaeaf a aeth heibio ym [Mhenisarwaun](#)

Les Larsen

Gwredog Isaf, Waunfawr



Paentiad o Gwredog Isaf, Waunfawr gan yr artist gwlad Owen Eifion Roberts, Waunfawr. Fe’i paentiwyd yn y 1960au cyn i’r ty gael ei adnewyddu a phan oedd yr olwyn ddwr i’w weld o hyd. Cartref diweddarach yr artist Gwilym Pritchard.

Llun trwy garedigrwydd merch yr artist Ifanwy Rhisiart

Mwy am Gwredog Isaf, Waunfawr ym [Mwletin 17 \(tudalen flaen\)](#)

Awrlyfr y Santes Ann

Llyfrau defosiynol canol oesol oedd yr awrlyfrau wedi eu goliwio gyda digwyddiadau pob dydd, y cynhaeaf, lladd mochyn, gweddio, ac yn yr achos dan sylw, byd natur. Mae pob awrlyfr yn unigryw mewn rhyw ffordd ac mae Dominig Kervegant wedi tynnu sylw Llên Natur at [awrlyfr y Santes Ann o Lydaw](#).

Gwyn y gwêl..... ?



Daethom ar draws yr iar yma a dwy gwnhingen ddoe ar daith y Gymdeithas ddoe, 22 Mawrth 2014 yn ardal Garnant. Yn wreiddiol roeddynt yng nghanol y ffordd ger fferm ac fel roedd yr iar yn symud roedd y cwnhngod yn ei dilyn yn glos iawn gan beidio gadael llonydd iddi. Maen’t yn siwr yn credu mai’r iar yw eu mam!!!

Llun a hanes: (y cyn milfeddyg) Ieuan Roberts

Evch [yma](#) i ddeall mwy am yr hyn a gydnebir fel “imprinting”. Fe’i disgrifwyd yn wreiddiol mae’n debyg gan yr etholegydd [Konrad Lorenz](#).

Tymor dodwy cwn môr



Roeddwn wedi mynd am dro ar Borth Neigwl ddoe [23 Mawrth 2014] pan welais y ddau gi môr wedi eu golchi i'r lan.

Llun a stori gan Anet

Dyweddodd Anet bod y ddau ohonynt efo olion "llinyynnau bogail" porsiau morwyn ar ôl eu "hesgor" (fel mae ei llun yn dangos). Cefais innau [gi môr dan yr un amgylchiadau a chyflwr](#) ar y 28 Chwefror 2014 ar draeth Llanbedrog. Tybed ydi Chwefror a Mawrth yn dymor dodwy i rhain ynteu ydyn nhw yn hytrach yn ymateb i gyflwr y mor. Gol.

Bwlch Birling yn mynd yn fwy!

Pwt fideo o glogwyni yn disgyn yn [Birling Gap](#), de Lloegr (4 Mawrth 2014) a Rock-a-Nore, Ffrainc (3 Ionawr 2014): "Un important morceau de falaise s'est effondré dans la mer mardi 4 mars à Birling Gap, au Royaume-Uni. L'instant a été capturé par des caméras. A l'origine de cette érosion soudaine : les violentes intempéries qui ont frappé l'Europe au cours de l'hiver. En janvier [3 Ionawr], c'est à [Rock-a-Nore](#), à quelques dizaines de kilomètres, qu'un pan entier de falaise s'écroulait dans les vagues."

Le Monde 24 Mawrth 2014

Nova Scotia



Effaith y pwysedd uchel yn Nova Scotia [dydd Mercher 26 Mawrth]

https://www.youtube.com/watch?v=saZnpFBVW_U&feature=player_embedded

<http://www.maritimeweather.ca/1/post/2014/03/noreaster-to-barrel-into-maritimes-on-wednesday.html>

Cyfrannwyd y llun gan E.Spence drwy law Ifor Williams

Tywydd sahara 31 Mawrth


A oedd effeithiau'r llwch o'r Sahara yn amlwg ar y ceir yn eich ardal chi ar 31 Mawrth eleni? Oes gennych chi luniau?

Afu'r ambarelo

Roedd y dyddadurwr Harry Thomas o Landudno yn sylwgar iawn o bopeth o'i gwmpas. Dyma lun a wnaeth ym mis Awst 1914 o afu'r ambarelo *Marchantia polymorpha*.



Ar ôl i Malcolm Watling, breiolegydd o Flaenau Ffestiniog, weld dyluniad HT, dyma fo'n mynd am dro i gael ffotograff ohono:



I weld sylwadau HT a Malcolm, cliciwch [yma](#).

Y Flying Foam



Cafodd hon ei dryllio yn storm 21ain o Ionawr, 1936. Mae dau lun cydmarol yn yr Oriel eisoes. Cyd-ddigwyddiad cyfleus hollol yw bod llawer mwy o'r llong wedi dod i'r golwg yn dilyn y stormydd

diweddar (Ionawr - Chwefror 2014) ar draeth Pen Morfa, Llandudno! Gwerthwyd y cargo o lo i gwmni lleol - Owen Thomas, a defnyddiwyd llawer o'r coed mewn adeiladau yn y dref! Llun a dynnais prawn heddiw y 27ain Chwefror 2014 yw hwn pan oedd y llanw'n isel. Hwyl! (Ia, llong hwyliau oedd hi!)

Llun a stori gwreiddiol a pellach: Gareth Pritchard

Mwy am y [Flying Foam](#)

Pa mor gyflym mae cen cerrig yn tyfu....MWY

Ym [Mwletin 74](#)

*(tudalen 3) cawsom enghraifft o faint o dwf oedd ar gen yn tyfu ar gareg fedd. Dyma gymhariaeth arall 6 mlynedd rhyngddynt ar bont ger Rhuthun, gyda chanlyniad tebyg, gan Gwyn Williams, sef "dim llawer o wahaniaeth!"

Mae'n rhaid bod rhai cen cerrig yn tyfu'n gynt na hyn. Mae'n rhaid bod rhai ohonoch wedi tynnu llun cerrig beddi neu hen gerfluniau cennog. Beth am I chi wneud cymhariaeth tebyg?



Goddaith

TÂN GODDAITH

O *Ancient Dorset* Wm. Barnes B.D. Arch Journal 1856, t.287.

*I might here, in speaking of the British people, caution antiquaries against the too hasty conclusion that bits of charcoal found thinly scattered in the up-dug soil must be traces of body cremation, as among the British, as early, at least, as the 6th century, a fire was kindled in March to clear the ground of scrub & other such growth. It was called **Tân Goddaith** 'scrub fire', or *tân mawr*, - 'the great fire'. By the laws of Hoel Dda, a fine was set for the kindling of the scrub fire at any other time than between the middle of March and the middle of April, and that the scrub fire was in use in the 6th century is shown by a line of a poem of Llywelyn Hen, who says that the onset of the men was like the scrub fire on the hill - '**Rhuthr goddaith ar ddeffaith vynydd...**'*

(O'r gair 'goddaith' uchod y daw'r gair 'goddeithio/gydeithio' a ddefnyddid gennym dros y cenedlaethau ym Mhenmachno am losgi eithin crin ac ati ym misoedd y gaeaf. Dyna, yn ddi-os yw tarddiad y gair 'Creithio' fu/sydd mewn defnydd mewn sawl ardal, gan gynnwys 'Stiniog, am losgi eithin ac ati.) (VPW)

Isod o 'Y Llwynog' gan Dafydd ap Gwilym (1320-1370)

Goddaith a roi'r mewn eithin,
Gwanwyn cras, mewn gwynnon crin
Anodd fydd ei ddiffoddi
Ac un dyn a'i hennyn hi.

Viv Parry Williams

Gwellt gwyn hir yw gwynnon. Mae geiriau Dafydd yn amserol a ninnau'n gweld yr holl dannau dinistriol sydd yn treiddio i'r mawn a'r graith yn parhau am flynyddoedd. Mae'n rhaid cael criw i reoli tân.

[Creithio](#) y mae Tom Jones yn ei arfer am losgi o'r fath.

Y Deryn D'wydd



Cerddad tuag at y siop oedd o - Gareth Sarn, o Berffro'n wreiddiol. Nôl prescription o'r surgery medda fo. A finna'n dwad o'r siop. Fi wedi cerddad rhyw ddau gan llath a fynta wedi cerddad tua hanar milltir.

Holi syd oedd pawb.
Sôn am y tywydd.
Pasio remarks am y ceir oedd wrth y siop -

rhai o'r ceir yn perthyn i bobol oedd yn byw yr un pellter â ni o'r siop! Sôn wedyn am edrach ymlaen i weld y Wennol a faint sydd yna ers i ni glwad y gôg. Gareth yn rhestru wedyn yr adar oedd o gwmpas Sarn - Titw Tomos, Titw Fawr, Robin Goch.... a Deryn Dwydd. "Be ddiawl ydi Deryn Dwydd?" medda fi. Toeddwn i rioed wedi clwad yr enw o'r blaen. Disgrifiodd y deryn a penderfynon mai Sigl -dy-Gwt oedd o - Siglen Fraith fwy na thebyg. Wydda fo ddim sud cafodd o'r enw yna. I ni ffor' 'ma, ma' "Tydi hi'n dwydd" yn golygu twydd mawr, gwyntog gwlyb, oer. Y math o dwydd ganol gaeaf, pryd ma'r un o'r ychydig adar a welwch chi o gwmpas ydi Siglen. Fynta'n pigo petha anweledig i ni oddiar gowt neu do llechi llwm.

Gallaf ddychmygu ffarmwr neu was ffarm, neu rywun yn gaeth i'r ty, yn sbio allan o ddrws y beudy neu ddrws y stabal neu ffenast a gweld y deryn yma: Deryn Dwydd. Ys gwn i ?

[DERYN D'WYDD - newidiais y sillafiad fymryd er mwyn cyfleu fel fyddai Wil a Gareth Sarn (mae'n siwr) yn ei ddweud o. Gol.]

Copyn cacwn



Tiger spider: Beg ar Raz / Pointe du Raz 08 Awst 2006
Cyfrannwyd y llun gan Dominig Kervegant

[Argiope bruennichi](#) the so called 'wasp spider'. This species has been recorded in South Wales recently and is gradually spreading North in Britain. I know of an isolated record in Derbyshire. It will eventually get to North Wales, almost certainly on our rough coastal grassland where it feeds on grasshoppers. Like the garden spider it is mature in Autumn, so maybe a species worth highlighting to Llen Natur members! Would be a great range extension. They are relatively common along the south coast of Britain.

Richard Gallon

Wel cyfrannwyr Llên Natur, beth amdani?

Ffascelliad

Gwelais hwn ar ochr y ffordd y noswaith or blaen, ac roedd yn wahannol



i'r arfer, roedd ganddo goes tipyn mwy trwchus nag arfer a tri pen blodyn ar ben yr un coesyn. Ydy hyn yn gyffredin, gan na welais un o'r blaen. Llun a sylw: Netta Pritchard



Tybed ai math o ffascelliad (*fasciation*) ydi hwn? Dyma [enghraifft](#) gawson ni ar gelyn peth amser yn ol Gol.

Stormydd y gaeaf... eto fyth



Mae hanesion am y stormydd ddechrau'r flwyddyn yn dal i'n cyrraedd...

Pluie, pluie, tempêtes, temps pourri [glaw, glaw, stormydd, tywydd budr (yn Llydaw, fel yma), dros ddau fis cyntaf 2014... tywydd diflas meddai Gabriel Gol.] Wele Fwletin 73 (tudalen 3) am [effaith y stormydd](#) o'r wasg yn Ffrainc.

Llun a hanesyn: Gabriel Quéré (Llydaw)

Gwylannod yn ffraeo

Dyma wylan yn ceisio dwyn bwyd gan wylan arall. Cricieth 15 Ebrill 2014



Gwyn Williams

Adnabod y llwydfron fach



Llwydfron fach yng Ngwarchodfa Natur Conwy, Ebrill 14, 2014.

Eifion Griffiths

Mae'n debyg bod yr aderyn hwn wedi cynyddu yng Nghymru yn ddiweddar. Ond mae'n hawdd ei fethu onibai eich bod chi'n adnabod ei gân. [Dywed rhai bod y gân yn eu hatgoffa o gân asgell fraith undonog.](#)

Nant Gwytheyrn.... pryd


Llun yn Herald Caernarfon Ebrill 10, 2014 (tudalen Nostalgia) - mae'n



amlwg mai Nant Gwytheyrn sydd yma, ac mae'r teitl Vortigern's Valley, Lithfaen i'w ddirnad yng ngwaelod y llun. Ond i ba gyfnod mae'r llun yn perthyn. Sylwch ar ffurf mynydd Trwyn y Gorlech.

Codwyd y llun o dudalen Nostalgia y Caernarfon and Denbigh Herald

Peidiwch a mynd ar fordaith efo Huw Williams....!



MOST EXTRAORDINARY COINCIDENCE.
HUGH WILLIAMS.
In the year 1664, on the 5th of December, a boat on the Menai, crossing that strait, with eighty-one passengers, was upset, and only one passenger, named Hugh Williams, was saved. On the same day, in the year 1785, was upset another boat, containing about sixty persons, and every soul perished, with the exception of one, whose name also was Hugh Williams. And on the 5th of August, 1820, a third boat met the same disaster; but the passengers of this were no more than twenty-five, and, singular to relate, the whole perished with the exception of one, whose name was *Hugh Williams*.

Gwyn Williams